



Cynhyrchu Ffrwythau a Llysiau Cymru

2020

Astudiaeth waelodlin ar gyfer Tyfu Cymru
gan Dr. Amber Wheeler



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Faint o gynhyrchwyr ffrwythau a llysiau masnachol sydd yng Nghymru?

204, o'r rhain mae:

- **120 ar raddfa fach** (117 dan 5 ha, 3 cynhyrchwr 5-10 ha)
 - Mae 7 yn fusnesau newydd
 - Mae 82 yn gynhyrchwyr gweithredol gyda 34 yn darparu cynlluniau blwch (7 ohonynt yn amaethyddiaeth a gefnogir gan y gymuned [CSAs])
 - Ni chwblhaodd 31 yr arolwg ond maent yn debygol o fod yn y categori hwn
- **25 ar raddfa fawr** (dros 10 ha) cynhyrchwyr Puffin
- **31 yn winllannoedd** i gynhyrchu gwin
- **28 yn gynhyrchwyr mwylar duon, afalau a gellyg** i gynhyrchu Perai a Seidr

Cnydau a Dyfir



- Cymysgedd amrywiol o ffrwythau a llysiau (rhwng 25 a 65 o wahanol fathau) wedi'u tyfu gan 120 o gynhyrchwyr ar raddfa fach
- Ffrwythau meddal ar raddfa fawr
- Madarch
- Tatws, bresych a chennin ar raddfa fawr
- Grawnwin ar gyfer gwin mewn gwinllanoedd
- Afalau a Gellyg

Maint/arwynebedd




- Maint: Dim modd gwirio gan na chaiff data ei gasglu fel mater o drefn

ARWYNEBEDD	Hectarau (amc)
120 cynhyrchedd ar raddfa fach gymysg	216
Ffrwythau meddal (mwyar duon)	53
25 o gynhyrchwyr bresych a chennin Puffin ar raddfa fawr. Mae Puffin hefyd yn tyfu tatws ar 1200 hectar ond mae'r ffigurau ar gyfer tatws wedi'u gwahanu yma gan nad ydyn nhw'n cael eu dosbarthu fel llyisiau o dan arweiniad iechyd y cyhoedd.	618
Mae 31 yn winllannoedd ar gyfer cynhyrchu gwin	60
Mae 28 yn gynhyrchwyr mwyar duon ac afalau a gellyg ar gyfer Perai a Seidr	250
Cyfanswm Awyr Agored	1,197
Dan orchudd	44
Cyfanswm arwynebedd	1241

Llwybrau i'r Farchnad



Llwybrau i'r Farchnad



Beth sy'n mynd yn dda?



- Cynhyrchwyr ar raddfa fach sy'n tyfu cnydau amrywiol yn profi ymwybyddiaeth uwch gan gwsmeriaid a gwerth uwch am y cynnyrch, yn ogystal â galw cynyddol am yr holl lysiau lleol a thymhorol. Cynlluniau blychau gyda rhestrau aros, galw am fwyd organig a lleol trwy'r dull dosbarthu hwn.
- Mae llawer o gogyddion lleol yn gofyn am gynnyrch lleol ac amrywiol ac mae hyn hefyd yn gyrru'r galw. Soniwyd am gnydau deiliog a saladau a pherlysiâu anarferol amlaf fel cnydau posibl i ehangu arnynt.
- Mae llawer o gynhyrchwyr yn ychwanegu gwerth at lysiau trwy brosesu er enghraifft i siytni, te llysieuol (perlysiâu), llysiâu wedi'u eplesu, garlleg wedi'i fygu, cynhyrchion madarch, pwdinau wedi'u rhewi, loliau iâ, sudd, suropau ffrwythau yn ogystal â jam.
- Soniwyd hefyd bod galw am ffrwythau meddal, mefus, riwbob a chyrens duon yn benodol.
- Cynhyrchu graddfa fawr drwy Puffin

Cyfyngiadau



- Diffyg buddsoddiad gan y Llywodraeth o'i gymharu â sectorau eraill sy'n golygu bod cynhyrchwyr ar raddfa fach yn cael trafferth cael chwarae teg
- Diffyg gweledigaeth gydlynol neu gynllun integredig ar gyfer y sector
- Diffyg arbenigedd tyfu a/neu farchnata, fel arfer ymhlith cynhyrchwyr llai sy'n dod i mewn

Gofyn am ffrwythau a llysiau gan boblogaeth Cymru



- Amcangyfrifodd yr adroddiad hwn fod Cymru yn cynhyrchu 19,551 tonnell o ffrwythau a llysiau y flwyddyn ar 931 hectar o dir - 0.1% o gyfanswm y tir
- Gofyniad ffrwythau a llysiau '5 y dydd' poblogaeth Cymru yw 566,803 tonnell y flwyddyn
- Dyw Cymru ond yn cynhyrchu digon i gyflenwi $\frac{1}{4}$ o gyfran y pen o'r boblogaeth y dydd
- Byddai angen 29 gwaith yn fwy o dir i gynhyrchu '5 y dydd' ar gyfer poblogaeth Cymru
- 931 hectar i 26,991 hectar - 2% o gyfanswm y tir

Nifer y cynhyrchwyr i gynhyrchu '5 y dydd'



- I gynhyrchwyr ar raddfa fach, byddai hyn yn golygu mynd o 120 i 3,480 o gynhyrchwyr.
- Efallai y byddai cynhyrchwyr ar raddfa fawr fel Puffin, sy'n rhagweld gyda'u cynhyrchwyr cyfredol y gallent uwchraddio 10 gwaith, yn mynd o 25 i 75 o gynhyrchwyr

Mae'r rhain yn ffigurau uchelgeisiol ac yn ysgogiad ar gyfer trafod posibiliadau ar gyfer uwchraddio cynhyrchiad Cymru a'r mecanweithiau sydd eu hangen i wneud hyn.

Sylwadau clo



Mae gan sector ffrwythau a llyisiau Cymru botensial mawr i ddatblygu gyda grŵp craidd o gynhyrchwyr ymroddedig a digon o alw am gynnyrch. Gallai cynllunio a buddsoddi yn y sector weld nifer y cynhyrchwyr a'r cynhyrchiad gwych o Gymru yn cael ei ehangu'n sylweddol er budd busnesau lleol ac iechyd y genedl gyfan.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government